PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

# Safonau Iaith Gymraeg Prifysgol Aberystwyth – Crynodeb ar gyfer staff.

*Mae Safonau Iaith Gymraeg Prifysgol Aberystwyth yn effeithio ar bob aelod o staff, nid siaradwyr Cymraeg neu staff academaidd yn unig. Nod y crynodeb hwn yw egluro'n fras sut mae'r Safonau Iaith yn berthnasol i chi a sut gallwch chi gydymffurfio.*

**Cyflwyniad**

- O ganlyniad i Fesur y Gymraeg 2011 sefydlwyd fframwaith cyfreithiol i orfodi dyletswyddau ar sefydliadau cyhoeddus i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.
- Mae Prifysgol Aberystwyth yn ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg ers 1 Ebrill 2018 ac mae hyn yn disodli ein Cynllun Iaith Gymraeg.
- Mae Safonau'r Gymraeg yn rhestr o ddatganiadau sy'n egluro sut mae'n rhaid i Brifysgol Aberystwyth ddarparu gwasanaeth dwyieithog a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r Safonau mwyaf perthnasol. Ceir disgrifiad llawn o'r Safonau ar wefan Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg. (www.aber.ac.uk/cy/cgg/)

Mae'r Safonau y mae'n ofynnol i ni gydymffurfio â nhw wedi'u rhannu'n bedwar categori:

.
- Cyflenwi Gwasanaethau (ar gyfer y cyhoedd a myfyrwyr)
- Llunio Polisi
- Gweithredu (ar gyfer staff)
- Cadw Cofnodion

## Safonau Cyflenwi Gwasanaethau

**Gohebiaeth**

- Dylai gohebiaeth a dderbyniwyd yn Gymraeg gael ei hateb yn Gymraeg.
- Wrth ddechrau gohebiaeth yn enw neu ar ran y sefydliad ag unigolyn am y tro cyntaf dylech :
  - ohebu yn ddwyieithog os nad ydych yn gwybod eu dewis iaith ar gyfer gohebu
- Dylai gohebiaeth at grŵp o bobl fod yn ddwyieithog.
- Rhaid i ohebiaeth yn y ddwy iaith gael ei dosbarthu ar yr un pryd a rhaid iddynt fod yr un fath (e.e. llofnod a manylion cyswllt ar y ddau fersiwn)
- Rhaid datgan bod croeso i ohebiaeth yn Gymraeg ac na fydd gohebu yn Gymraeg yn peri oedi.

**Ceir canllaw ar gyfer Gohebiaeth ar wefan Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg (www.aber.ac.uk/cy/cggl/)**

**Cyfathrebu dros y ffôn**

- Dylai pob aelod o staff sy'n ateb y ffôn ar ran Cyfadran, adran neu swyddfa ddefnyddio cyfarchiad dwyieithog, p'un ai ydynt yn ddwyieithog eu hunain neu beidio.
- Dylai pob aelod o staff sy'n ateb prif rif ffôn neu un o linellau cymorth y Brifysgol roi gwybod i'r person sy'n galw bod gwasanaeth Gymraeg ar gael, p'un ai ydynt yn ddwyieithog eu hunain neu beidio.
- Os yw'r galwr/wraig yn dymuno siarad yn Gymraeg, ond nad yw'r aelod staff a atebodd y ffôn yn medru gwneud hynny, dylid cynnig trosglwyddo'r alwad i gydweithiwr/wraig sy'n siarad Cymraeg.
- Os nad oes siaradwr/wraig Cymraeg ar gael, ac mae'r galwr/wraig yn parhau i ddymuno defnyddio'r Gymraeg, dylid trefnu bod cydweithiwr/wraig sy'n siarad Cymraeg yn dychwelyd yr alwad.
- Wrth gyhoeddi ein prif rif ffôn a rhifau'r llinellau cymorth rhaid nodi bod croeso i alwadau yn Gymraeg.
- Dylai negeseuon wedi'u recordio ar beiriannau ateb fod yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg yn gyntaf a dylai'r neges ddweud fod y galwr yn gallu gadael neges yn Gymraeg.
- Pan fyddwch yn ffonio unigolyn (myfyriwr neu aelod o'r cyhoedd) am y tro cyntaf dylid gofyn a ydynt yn dymuno cael galwadau ffôn gan y Brifysgol yn Gymraeg, ac os ydynt dylid cadw cofnod o'u dymuniad a sicrhau bod galwadau ffôn a wneir o hynny ymlaen yn Gymraeg. oni bai
    - bod yr unigolyn angen gwasanaeth ar bwnc penodol ac nid oes siaradwr Cymraeg ar gael sy'n medru darparu gwasanaeth ar y pwnc penodol hwnnw.

**Ceir canllaw ar gyfer Ateb y Ffôn ar wefan Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg (www.aber.ac.uk/cy/cggl/)**

**Cyfarfodydd (myfyrwyr a'r cyhoedd)**

- Wrth wahodd **unigolyn** i gyfarfod rhaid i chi ofyn iddynt a ydynt yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod.
- Os ydynt yn dymuno defnyddio Cymraeg yn y cyfarfod rhaid i chi gynnal y cyfarfod yn Gymraeg neu ddefnyddio gwasanaeth cyfieithu ar y pryd.
- Dylid egluro i'r unigolyn y bydd cyfieithu ar y pryd yn cael ei ddefnyddio os bydd angen.
- Os yw'r cyfarfod yn ymwneud â
    - chwyn

- achos disgyblu
- darparu cymorth i fyfyriwr

a bod angen defnyddio cyfieithu ar y pryd, bydd angen trefnu cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg **ac** o'r Saesneg i'r Gymraeg (sy'n golygu defnyddio dau gyfieithydd).

- Wrth wahodd **mwy nag un person** i gyfarfod rhaid i chi ofyn a ydynt yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod ac os oes 10% neu fwy am wneud hynny rhaid i chi ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd i alluogi hyn.
- Os yw'r cyfarfod gyda mwy nag un person yn cynnwys unigolion sydd yn
  - destun cwyn neu wedi gwneud cwyn
  - destun achos disgyblu
  - derbyn darpariaeth cymorth myfyriwr (myfyrwyr yn unig)

  a'u bod am ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod (waeth beth yw dewis iaith pobl eraill yn y cyfarfod), rhaid i chi ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg **ac** o'r Saesneg i'r Gymraeg (oni allwch gynnal y cyfarfod yn gyfan gwbl yn Gymraeg).

**Cyfarfodydd Cyhoeddus**

- Wrth hysbysebu ac wrth anfon gwahoddiadau i gyfarfodydd sy'n agored i'r cyhoedd neu i fyfyrwyr o fewn carfan benodol rhaid i chi ddatgan bod croeso iddynt ddefnyddio Cymraeg yn y cyfarfod (e.e. wrth ofyn cwestiynau).
- Wrth wahodd siaradwyr i'r cyfarfod cyhoeddus dylech ofyn iddynt a fyddent yn dymuno traddodi yn Gymraeg gan egluro iddynt y byddwch yn defnyddio gwasanaeth cyfieithu ar y pryd i hwyluso hyn.
- Ar ddechrau'r cyfarfod cyhoeddus fe ddylech chi ddatgan ar lafar bod croeso i bobl defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod a bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd wedi'i ddarparu.
- Dylai unrhyw ddeunydd ysgrifenedig sy'n cael ei arddangos mewn cyfarfod cyhoeddus fod yn ddwyieithog.

**Ceir canllaw ar gyfer Cyfarfodydd ar wefan Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg (www.aber.ac.uk/cy/cgg/)**

**Digwyddiadau Cyhoeddus**

- Rhaid i ddeunydd cyhoeddusrwydd a hysbysebu digwyddiadau cyhoeddus fod yn ddwyieithog.
- Rhaid i unrhyw ddeunydd yr ydych yn ei arddangos yn gyhoeddus gael ei arddangos yn ddwyieithog.
- Rhaid i unrhyw gyhoeddiadau sain a wneir yn y digwyddiad fod yn ddwyieithog.

- Mae'r uchod yn wir ar gyfer digwyddiadau sydd wedi'u hariannu o leiaf 50% gan y Brifysgol.

**Darlithoedd Cyhoeddus**

- Dylid trefnu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gyfer darlithoedd cyhoeddus pan fod pwnc y ddarlith ac/neu'r gynulleidfa a ragwelir yn awgrymu bod angen gwasanaeth o'r fath.
- Wedi i chi drefnu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd mewn darlith gyhoeddus fe ddylech chi ddatgan ar lafar ar ddechrau'r ddarlith bod croeso i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd wedi'i ddarparu.

**Seremonïau Graddio a Gwobrwyo**

- Dylai'r holl ddeunydd a arddangosir yn lleoliad y seremoni fod yn ddwyieithog, gan gynnwys arwyddion.
- Dylai'r holl wybodaeth am drefniadau'r seremoni fod yn ddwyieithog.
- Rhaid i chi ofyn i unrhyw un a wahoddir i siarad yn y seremoni os ydynt am ddefnyddio'r Gymraeg a darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd neu gyfieithiad ysgrifenedig o'u haraith, os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

**Ceir canllaw ar gyfer Digwyddiadau / Darlithoedd Cyhoeddus a Seremonïau Graddio / Gwobrwyo ar wefan Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg (www.aber.ac.uk/cy/cgg/)**

**Cyhoeddiadau (gan gynnwys ffurflenni)**

- Dylai cyhoeddiadau a deunyddiau printiedig at ddefnydd y cyhoedd a myfyrwyr fod ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- Gall y rhain gynnwys llyfrynnau a thaflenni gwybodaeth, rheolau, cyfarwyddiadau, ffurflenni a deunydd esboniadol cysylltiedig ar gyfer ffurflenni.
- Gyda chyhoeddiadau sydd mewn fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân rhaid i'r naill fersiwn a'r llall :
    - gael eu dosbarthu ar yr un pryd a'i gilydd
    - fod o'r un ansawdd a maint
    - ddatgan bod y ddogfen ar gael yn yr iaith arall
    - bod yn gyfartal o ran nodi dyddiad cau
    - bod yn gyfartal o ran cynnwys gwybodaeth i'w wirio (mewn ffurflen)

**Y Wefan**

- Mae Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg yn gweithredu Strategaeth Gwefannau Dwyieithog sy'n blaenoriaethu pa dudalennau gwe sydd yn ddwyieithog. Mae'r Strategaeth wedi'i diwygio i adlewyrchu gofynion y Safonau Iaith.

- Pan fydd tudalen Gymraeg ar y wefan yn cyfateb i dudalen Saesneg rhaid darparu dolen uniongyrchol o’r naill iaith i’r llall, a’i gwneud hi’n amlwg bod tudalen Gymraeg gyfatebol ar gael.
- Dylai’r rhyngwyneb a’r dewislenni fod ar gael yn Gymraeg.
- Rhaid peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg ar y wefan.

**Mae’r Strategaeth ar gyfer Gwefannau Dwyieithog ar gael ar wefan Canolfan Gwasanaethau’r Gymraeg (www.aber.ac.uk/cy/cgg/)**

**Meddalwedd, Apiau a’r Cyfryngau Cymdeithasol**

- Rhaid darparu meddalwedd gwirio sillafu a gramadeg y Gymraeg i fyfyrwyr.
- Rhaid i bob ap a gyhoeddir weithredu’n llawn yn Gymraeg.
- Rhaid peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg o ran yr ap hwnnw.
- Os bydd person yn cysylltu â chi drwy’r cyfryngau cymdeithasol yn Gymraeg, rhaid ichi ateb yn Gymraeg (os oes angen ateb).
- Wrth ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol rhaid peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg. Gellir sicrhau hyn drwy un o’r canlynol:
    - cael cyfrif cyfryngau cymdeithasol ar wahân, un i bob iaith, sy’n cael eu diweddaru yr un pryd ac sydd â’r un cynnwys
    - cael un cyfrif dwyieithog lle bydd y Gymraeg yn ymddangos cyn y Saesneg
    - cael un cyfrif sydd yn cynhyrchu yr un faint o gynnwys yn Gymraeg ag yn Saesneg, ond nad yw’r cynnwys hynny o anghenraid yn gyfieithiad o’r naill iaith i’r llall.
- Ar gyfer cyfrifon cyfryngau cymdeithasol unigolion gellir defnyddio dewis iaith yr unigolyn hwnnw.

**Ceir canllaw ar gyfer y Cyfryngau Cymdeithasol ar wefan Canolfan Gwasanaethau’r Gymraeg (www.aber.ac.uk/cy/cgg/)**

**Peiriannau Hunanwasanaeth**

- Rhaid i bob peiriant hunanwasanaeth (heblaw’r rhai a weithredir gan gwmni allanol) a ddefnyddir gan y cyhoedd neu fyfyrwyr fod yn gwbl weithredol yn y Gymraeg a’r Saesneg.

**Arwyddion (parhaol a dros dro) a Hysbysiadau**

- Dylai pob arwydd gwybodaeth a hysbysiad sydd ar dir ac eiddo Prifysgol Aberystwyth fod yn ddwyieithog, gyda’r Gymraeg yn uchaf neu i’r chwith i’r Saesneg.

- Os bydd angen cynhyrchu arwyddion Cymraeg a Saesneg ar wahân dylid sicrhau bod y testun yn gyfartal o ran maint, eglurder ac amlygrwydd.
- Dylai unrhyw arwydd a osodir gan drydydd parti ddilyn yr un rheolau.

**Derbynfeydd**

- Rhaid i unrhyw wasanaeth derbynfa sydd ar gael yn Saesneg fod ar gael yn Gymraeg hefyd.
- Rhaid peidio â thrin person sy'n derbyn gwasanaeth derbynfa yn Gymraeg yn llai ffafriol na pherson sy'n cael yr un gwasanaeth yn Saesneg.
- Rhaid i'r dderbynfa gael arwydd sy'n dangos bod gwasanaeth Cymraeg ar gael a dylai staff y dderbynfa sy'n medru siarad Cymraeg wisgo cortyn gwddf neu fathodyn i ddangos hyn.
- Ystyrir y mannau canlynol fel prif dderbynfeydd cyhoeddus y Brifysgol :
    - Derbynfa Penbryn
    - Derbynfa Fferm Penglais
    - Prif Dderbynfa'r Campws (caban y porthorion)
    - Derbynfa'r Ganolfan Chwaraeon
    - Derbynfa Llyfrgell Hugh Owen
    - Derbynfa/man tocynnau Canolfan y Celfyddydau

**Grantiau**

- Rhaid i bob dogfen sydd yn ymwneud â chais am grant neu gymorth ariannol fod yn ddwyieithog.
- Wrth wahodd pobl/cwmnïau i wneud cais rhaid datgan bod croeso iddynt wneud hynny yn Gymraeg ac na fydd gwneud hynny yn niweidio eu cais.
- Os byddwch yn cynnal cyfweliad gydag ymgeisydd sydd wedi cyflwyno ei gais yn Gymraeg rhaid i chi gynnig trefnu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd iddynt fel y gallant ddefnyddio Cymraeg yn y cyfweliad.

**Contractau a ddyfernir i drydydd parti**

- Dylai pob gwahoddiad i dendro (sef yr hysbyseb cychwynnol) fod yn ddwyieithog
- Wrth gyhoeddi gwahoddiadau i dendro am gontract rhaid datgan bod croeso i'r cais fod yn Gymraeg ac na fydd y cais yn cael ei drin yn llai ffafriol o'r herwydd.
- Os byddwch yn cynnal cyfweliad gyda thendrwr sydd wedi cyflwyno ei gais yn Gymraeg rhaid i chi gynnig trefnu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd iddynt fel y gallant ddefnyddio Cymraeg yn y cyfweliad.

**Ceir canllaw ar gyfer Grantiau, Contractau Trydydd Parti a Thendro ar wefan Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg (www.aber.ac.uk/cy/cgg/)**

**Hysbysebu a Hybu**

- Rhaid i'r Brifysgol hysbysebu a hybu pob gwasanaeth sydd ar gael yn Gymraeg e.e.
    - drwy farchnata ein cyrsiau cyfrwng Cymraeg
    - drwy ddangos arwydd mewn derbynfa
    - drwy dynnu sylw at fersiynau Cymraeg dogfennau

**Hunaniaeth Gorfforaethol**

- Mae hunaniaeth gorfforaethol y Brifysgol yn ddwyieithog a dylid cadw at yr egwyddor hon wrth lunio a diwygio. Mae'r hunaniaeth yn cynnwys;
    - ein henw
    - manylion cyswllt
    - logo
    - sloganau

**Cyfleoedd Dysgu**

- Dylai cyfleoedd dysgu sy'n agored i'r cyhoedd gael eu cynnig yn Gymraeg.
- **Nid** yw hyn yn cyfeirio at sesiynau sydd yn rhan o gwrs (e.e. cyrsiau Dysgu Gydol Oes) neu sesiynau sy'n arwain at berfformiad neu gynhyrchiad.
- Os bydd sesiynau o'r math hwn ar gael yn Gymraeg/ddwyieithog dylid hyrwyddo hyn.
- Lle nad oes sesiynau o'r fath yn bodoli yn Gymraeg dylid ystyried y posibiliadau o gyflwyno sesiynau, neu elfennau o'r sesiynau, yn Gymraeg, a cheisio canfod y galw a fyddai am sesiynau o'r fath yn y Gymraeg.

**Asesiadau Myfyrwyr**

- Mae gan fyfyrwyr yr hawl i gyflwyno gwaith ysgrifenedig a sefyll arholiadau yn Gymraeg ar fodiwlau cyfrwng Saesneg. (Nid yw hyn yn gymwys ar gyfer cyrsiau iaith)
- Rhaid hyrwyddo'r hawl hwn i fyfyrwyr ac egluro na fydd eu gwaith yn cael ei drin yn llai ffafriol o'r herwydd.

**Cyhoeddiad Cyhoeddus**

- Wrth gyhoeddi neges dros system annerch gyhoeddus rhaid gwneud y cyhoeddiad yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg yn gyntaf.
- Nid oes angen gwneud hyn mewn argyfwng.

**Llety Myfyrwyr**

- Mae gan fyfyrwyr yr hawl i ofyn am lety cyfrwng Cymraeg.
- Rhaid gwneud hi'n amlwg i ddarpar fyfyrwyr bod llety cyfrwng Cymraeg ar gael.

### Tiwtor Personol i Fyfyrwyr

- Rhaid gofyn i bob myfyriwr sy'n siarad Cymraeg a ydynt yn dymuno cael tiwtor personol sy'n siarad Cymraeg.
- Os nad oes modd darparu tiwtor o'r un adran sy'n siarad Cymraeg dylid chwilio am diwtor cymwys o fewn yr un gyfadran.

## Safonau Llunio Polisi

### Penderfyniadau Polisi

- Wrth lunio polisi newydd neu adolygu/addasu polisi sy'n bodoli'n barod rhaid ystyried yr effaith y byddai'r penderfyniad polisi yn cael ar yr iaith Gymraeg o ran cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol.
- Rhaid ystyried a ydyw'r effaith yn gadarnhaol neu yn negyddol a hefyd a fyddai modd diwygio'r polisi i leihau yr effeithiau negyddol neu i gynyddu'r effeithiau cadarnhaol.
- Dylid defnyddio'r Offeryn Asesiad Ardrawiad Iaith ar gyfer cyflawni'r ystyriaethau hyn a gellir gofyn am gymorth a chyngor gan Ganolfan Gwasanaethau'r Gymraeg.

### Ymgynghori

- Wrth gyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi rhaid i chi geisio barn am yr effaith y byddai'r penderfyniad polisi yn cael ar yr iaith Gymraeg o ran cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol.
- Wrth ymgynghori rhaid gofyn a fyddai'r effaith yn gadarnhaol neu yn negyddol a hefyd gofyn a fyddai modd diwygio'r polisi i leihau yr effeithiau negyddol neu i gynyddu'r effeithiau cadarnhaol ar yr iaith Gymraeg.

### Comisiynu / Gwneud Ymchwil

- Wrth gomisiynu neu wneud gwaith ymchwil a fydd yn arwain at benderfyniad polisi rhaid i'r ymchwil ystyried yr effaith y byddai'r penderfyniad polisi yn cael ar yr iaith Gymraeg o ran cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol.
- Rhaid i'r ymchwil ystyried a fyddai'r effaith yn gadarnhaol neu yn negyddol a hefyd a fyddai modd diwygio'r polisi i leihau yr effeithiau negyddol neu i gynyddu'r effeithiau cadarnhaol.
- Dylid gofyn i'r ymchwilydd lenwi'r Offeryn Asesiad Ardrawiad Iaith ar gyfer cyflawni'r ystyriaethau hyn a gellir gofyn am gymorth a chyngor gan Ganolfan Gwasanaethau'r Gymraeg.

**Cyrsiau Academaidd**

- Wrth ddatblygu neu addasu cwrs (neu gydran o gwrs) rhaid i chi ystyried yr effaith y byddai'r cwrs yn ei gael ar yr iaith Gymraeg o ran cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol.
- Rhaid ystyried a ydyw'r effaith yn gadarnhaol neu yn negyddol ac hefyd a fyddai modd diwygio'r cwrs i leihau yr effeithiau negyddol neu i gynyddu'r effeithiau cadarnhaol.
- Dylai cydlynydd y cwrs ddefnyddio'r Offeryn Asesiad Ardrawiad Iaith ar gyfer cyflawni'r ystyriaethau hyn a gellir gofyn am gymorth a chyngor gan Ganolfan Gwasanaethau'r Gymraeg.

**Ceir canllaw ar gyfer Polisïau ar wefan Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg (www.aber.ac.uk/cy/cgg/)**

## Safonau Gweithredu

**Defnyddio'r Gymraeg tu fewn i'r sefydliad (Safon 105)**

- Yn unol â gofyniad Safon 105 mae'r Brifysgol wedi datblygu polisi ar gyfer defnydd mewnol o'r Gymraeg. Gellir gweld copi o'r polisi – *Defnyddio'r Gymraeg yn y Gwaith ym Mhrifysgol Aberystwyth* ar wefan Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg.

**Cyflogaeth – Materion Adnoddau Dynol**

- Dylai pob dogfen sy'n ymwneud â chyflogaeth staff fod ar gael yn Gymraeg neu yn ddwyieithog.
- Dylai pob polisi a gyhoeddir gan Adnoddau Dynol fod yn ddwyieithog.

**Cwynion a Disgyblu Staff**

- Mae gan aelodau staff yr hawl i wneud cwyn ac i ymateb i gŵyn yn Gymraeg.
- Mae gan staff yr hawl i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfodydd sy'n ymwneud â chwyn ganddynt, neu yn eu herbyn, gyda chymorth cyfieithu ar y pryd os bydd angen.
- Bydd dewis iaith gohebiaeth yr aelod staff yn cael ei ddefnyddio mewn pob gohebiaeth yn ymwneud â'r gŵyn oni bai eu bod yn gofyn am newid hyn.
- Mae'r uchod hefyd yn berthnasol i staff sy'n mynd trwy broses o ddisgyblu.

**Sgiliau Iaith Staff**

- Mae meddalwedd ar gyfer gwirio sillafu a gramadeg y Gymraeg (Cysgliad) ar gael i staff ddefnyddio ar eu cyfrifiaduron.  Cysylltwch â Gwasanaethau Gwybodaeth ar gyfer hyn.

- Rhaid i'r Brifysgol asesu sgiliau Cymraeg y staff.

**Hyfforddiant i Staff**

- Mae gan staff yr hawl i gael hyfforddiant datblygu staff penodol yn Gymraeg pan fo hyfforddiant cyfatebol yn y Saesneg.
- Mae'r rhestr lawn o'r hyfforddiant y mae'n rhaid i'r Brifysgol ei ddarparu yn Gymraeg yn y ddogfen – *Defnyddio'r Gymraeg yn y Gwaith ym Mhrifysgol Aberystwyth.*

**Hyfforddiant Iaith Gymraeg**

- Mae'n rhaid i'r Brifysgol ddarparu cyfleoedd i staff gael gwersi Cymraeg sylfaenol yn ystod oriau gwaith.
- Mae'n rhaid i'r Brifysgol ddarparu cyfleoedd i staff sydd am ddatblygu eu sgiliau iaith ymhellach yn rhad ac am ddim.
- Gweler polisi'r Brifysgol ar hyfforddiant iaith Gymraeg i staff.

**Llofnod a negeseuon absenoldeb e-bost, bathodynnau.**

- Anogir staff sy'n medru siarad Cymraeg, neu sy'n dysgu'r iaith, i gynnwys llofnod a logo ar waelod eu he-byst i ddangos hynny. Gellir lawr lwytho neu gopïo hyn o wefan Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg.
- Anogir staff sy'n medru siarad Cymraeg, neu sy'n dysgu'r iaith, i wisgo bathodyn neu gortyn gwddf i ddangos hynny. Mae bathodynnau/cortynnau gwddf ar gyfer siaradwyr a dysgwyr Cymraeg ar gael o Ganolfan Gwasanaethau'r Gymraeg.
- Dylai manylion cyswllt e-byst staff fod yn ddwyieithog
- Dylai negeseuon absenoldeb staff fod yn ddwyieithog. Ceir rhestr o negeseuon posibl yn y Canllaw ar gyfer Gohebiaeth.

**Ceir canllaw ar gyfer Logos/Llofnod E-Bost ar wefan Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg (www.aber.ac.uk/cy/cgg/)**

**Swyddi**

- Rhaid ystyried beth yw gofynion yr iaith Gymraeg ar gyfer pob swydd newydd neu wag.
- Rhaid i bob swydd sy'n gofyn am y Gymraeg (hanfodol neu ddymunol) gael ei hysbysebu yn Gymraeg.
- Rhaid i'r holl ddogfennaeth sy'n ymwneud â cheisio am swydd, gan gynnwys y swydd ddisgrifiad llawn, fod yn ddwyieithog.
- Mae gan ymgeiswyr yr hawl i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyfweliad.

**Arwyddion (parhaol a dros dro)**

- Dylai pob arwydd gwybodaeth sydd yn y gweithle fod yn ddwyieithog, gyda'r Gymraeg yn uchaf neu i'r chwith i'r Saesneg.
- Os bydd angen cynhyrchu arwyddion Cymraeg a Saesneg ar wahân dylid sicrhau bod y testun yn gyfartal o ran maint, eglurder ac amlygrwydd.

## Safonau Cadw Cofnodion

Mae'n rhaid i'r Brifysgol gadw cofnod, bob blwyddyn ariannol, o'r canlynol :

- Cwynion yn ymwneud â chydymffurfedd â'r Safonau
- Cwynion yn ymwneud â'r Gymraeg
- Asesiadau effaith ardrawiad iaith ar bolisïau
- Sgiliau iaith Gymraeg staff
- Nifer a chanran y staff a fynychodd cyrsiau hyfforddi staff yn Gymraeg.
- Asesiadau iaith ar gyfer swyddi

Mae'n rhaid i'r Brifysgol lunio :

- Adroddiad blynyddol am ei chydymffurfiad â Safonau'r Iaith Gymraeg.
- Gweithdrefn gwyno

Mae'r ddogfen *Safonau Iaith Gymraeg Prifysgol Aberystwyth* yn nodi pob Safon sydd wedi'i osod ar y Brifysgol ac yn egluro sut bydd y Brifysgol yn cydymffurfio â phob un. Mae'r ddogfen ar gael ar wefan Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg ac ym mhob un o'n swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd a myfyrwyr ar gais.